Arweiniad i feddygon

Cyfrinachedd

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rheoleiddio meddygon
Sicrhau arfer meddygol da

Dyletswyddau meddyg sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rhaid bod cleifion yn gallu ymddiried eu bywydau a'u hiechyd yn eu meddygon. I gyfiawnhau'r ymddiriedaeth hynny, rhaid i chi ddangos parch tuag at fywyd dynol ac mae'n rhaid i chi:

- Sicrhau eich bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf
- Diogelu a hyrwyddo iechyd cleifion a'r cyhoedd
- Darparu gofal a gwaith meddyg o safon da
  - Sicrhau eich bod yn diweddaru eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol
  - Cydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau eich gallu
  - Gweithio gyda chydweithwyr mewn ffyrdd sy'n diwallu buddiannau cleifion orau
- Trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas
  - Trin cleifion mewn ffordd gwrtais ac ystyrlon
  - Parchu hawl cleifion i gyfrinachedd
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion
  - Gwrando ar gleifion ac ymateb i'w pryderon a'u dewisiadau
  - Rhoi'r wybodaeth y maent yn ei dymuno i gleifion, mewn ffordd y gallant ei deall
  - Parchu hawl cleifion i wneud penderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal gyda chi
  - Cynorthwyo cleifion i ofalu am eu hunain er mwyn gwella a chynnal eu hiechyd
- Bod yn onest a gweithredu mewn ffordd gyfiawn
  - Gweithredu yn ddi-oed os oes gennych reswm da dros gredu y gallech chi neu gydweithiwr fod yn rhoi cleifion mewn perygl
  - Ni ddylech fyth wahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr mewn ffordd annheg
  - Ni ddylech fyth gymryd mantais ar ffydd eich cleifion ynddoch neu ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.

Rydych yn atebol yn bersonol am eich gwaith proffesiynol fel meddyg ac mae'n rhaid i chi fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd bob amser.

Cyfrinachedd

Bydd yr arweiniad hwn yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Rheoleiddio meddygon
Sicrhau arfer meddygol da

Cynnwys

	Paragraff(au)	Tudalen
Am yr arweiniad hwn	1–5	4
Egwyddorion	6–11	6
Diogelu gwybodaeth	12–16	8
Datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith	17–23	10
Datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl statud	17–20	10
Datgeliadau i lysoedd neu mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyfreitha	21–23	11
Datgelu gwybodaeth ar ôl sicrhau caniatâd	24–35	12
Amgylchiadau pan fo modd i gleifion roi caniatâd dealledig i ddatgeliad	25-32	12
Rhannu gwybodaeth o fewn y tîm gofal iechyd	25–29	12
Archwilio clinigol lleol	30-32	14
Datgeliadau y dylid ceisio caniatâd diamwys ar eu cyfer	33–35	15
Budd y cyhoedd	36–56	17
Datgeliadau er budd y cyhoedd	36–39	17
Ymchwil a defnydd eilaidd arall	40-50	18
Datgeliadau er mwyn diogelu'r claf	51–52	22
Datgeliadau er mwyn diogelu eraill	53–56	22

	Paragraff(au)	Tudalen
Datgeliadau am gleifion nad ydynt yn gallu rhoi eu caniatâd	57–63	24
Datgeliadau pan allai claf fod yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin	63	26
Rhannu gwybodaeth gyda phartner, gofalwyr perthnasau neu ffrindiau claf	64-66	27
Gwybodaeth enetig a gwybodaeth arall a rennir	67-69	28
Datgelu ar ôl marwolaeth claf	70-72	29
Geirfa		31
Atodiad cyfreithiol		34
Ôl-nodion		37
Mynegai		46

Am yr arweiniad hwn

1 Mae cofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn rhoi hawliau a breintiau i chi. Yn gyfnewid am hyn, bydd gennych ddyletswydd i fodloni safonau sy'n ymwneud â chymhwystra, gofal ac ymddygiad a bennir gan CMC.

2 Mae *Arfer Meddygol Da* yn nodi'n eglur bod gan gleifion yr hawl i ddisgwyl y bydd eu meddygon yn cadw gwybodaeth amdanynt yn gyfrinachol. Mae'r arweiniad hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n ymwneud â chyfrinachedd a pharchu preifatrwydd cleifion, y disgwylir i chi eu deall a'u dilyn.

3 Rhaid i dddefnyddio'ch barn wrth weithredu'r egwyddorion sy'n ymddangos yn yr arweiniad hwn yn ystod sefyllfaoedd y byddwch yn eu hwynebu. Diben yr arweiniad hwn yw'ch helpu chi i nodi'r ystyriaethau cyfreithiol a moesegol perthnasol, a'ch helpu i wneud penderfyniadau sy'n parchu preifatrwydd, annibyniaeth a dewisiadau cleifion, ac sy'n cynnig budd i gymuned ehangach y cleifion a'r cyhoedd hefyd. Os bydd gennych unrhyw amheuon, dylech geisio cyngor cydweithwyr profiadol, Gwarcheidwad Caldicott[1] neu rywun cyfatebol, neu'ch corff proffesiynol neu'ch corff rheoleiddio.

4 Trwy droi at ein gwefan, mae modd gweld arweiniad atodol sy'n esbonio sut y mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol mewn sefyllfaoedd y bydd meddygon yn eu hwynebu yn aml neu sefyllfaoedd y byddant yn ei chael hi'n anodd delio gyda nhw. Bwriadwn adolygu'r arweiniad atodol hwnnw yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a'i fod yn berthnasol i'r problemau y bydd meddygon yn eu hwynebu. Adeg cyhoeddi'r arweiniad craidd hwn, byddwn yn cyhoeddi arweiniad atodol ynghylch y meysydd canlynol hefyd:

(a) adrodd pryderon am gleifion i'r DVLA
(b) datgelu cofnodion at ddibenion ariannol a gweinyddol
(c) adrodd anafiadau saethu a thrywanu
(d) datgelu gwybodaeth am glefydau trosglwyddadwy difrifol
(e) datgelu gwybodaeth at ddibenion yswiriant, cyflogaeth a dibenion tebyg
(f) datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant
(g) ymateb i feirniadaeth yn y wasg.

5 Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestriad.

Egwyddorion

6 Mae cyfrinachedd yn rhan ganolog o'r ymddiriedaeth rhwng meddygon a chleifion. Heb sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, efallai y bydd cleifion yn amharod i geisio sylw meddygol neu i roi'r wybodaeth angenrheidiol i feddygon er mwyn iddynt allu darparu gofal da ar eu cyfer. Ond mae rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer y claf unigol a chymuned ehangach y cleifion.

7 Dylech sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion mewn ffordd hwylus, gan esbonio y gallai eu gwybodaeth bersonol gael ei datgelu er lles eu gofal eu hunain ac ar gyfer gwaith archwilio clinigol lleol oni bai eu bod yn gwrthwynebu. Fel arfer, bydd cleifion yn deall bod yn rhaid rhannu'r wybodaeth honno amdanynt o fewn y tîm gofal iechyd er mwyn darparu eu gofal. Ond nid yw bob amser yn eglur i gleifion y bydd angen i eraill sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddarparu gofal ar eu cyfer fod yn gallu troi at eu gwybodaeth bersonol hefyd. Ac efallai na fydd cleifion yn ymwybodol o ddatgeliadau a wneir i eraill at ddibenion ac eithrio'u gofal, megis cynllunio gwasanaethau neu ymchwil feddygol. Rhaid i chi hysbysu cleifion ynghylch datgeliadau a wneir at ddibenion na fyddai'n rhesymol iddynt eu disgwyl, neu sicrhau eu bod eisoes wedi cael gwybodaeth am ddatgeliadau o'r fath.

8 Mae cyfrinachedd yn ddyletswydd bwysig, ond nid yw'n ddyletswydd absoliwt. Gallwch ddatgelu gwybodaeth bersonol:

- **(a)** os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith (gweler paragraffau 17 i 23)
- **(b)** os bydd y claf yn rhoi eu caniatâd i chi wneud hynny – naill ai drwy awgrym yn unig er lles eu gofal eu hunain (gweler paragraffau 25 i 31) neu mewn ffordd ddiamwys at ddibenion eraill (gweler paragraffau 32 i 35)
- **(c)** os bydd modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 36 i 56).

9 Wrth ddatgelu gwybodaeth am glaf, rhaid i chi:

- **(a)** ddefnyddio gwybodaeth ddienw neu godedig os yw hynny'n ymarferol ac os bydd yn ateb y diben
- **(b)** teimlo'n fodlon:
  - **(i)** bod modd i'r claf droi at y wybodaeth sy'n esbonio y bydd eu gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu efallai er lles eu gofal eu hunain, neu ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol lleol, a bod modd iddynt wrthwynebu hynny, ac
  - **(ii)** nad yw'r claf wedi gwrthwynebu
- **(c)** sicrhau caniatâd diamwys y claf os bydd gwybodaeth adnabyddadwy yn cael ei datgelu at ddibenion ac eithrio eu gofal eu hunain neu ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol lleol, oni bai bod y datgeliad yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd
- **(d)** sicrhau bod cyn lleied o ddatgeliadau ag sy'n angenrheidiol yn cael eu gwneud, a
- **(e)** sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol diweddaraf, gan gynnwys cyfraith gwlad a deddfwriaeth diogelu data, a'u dilyn.[2]

10 Pan fyddwch yn fodlon y dylid datgelu gwybodaeth, dylech weithredu ar fyrder er mwyn datgelu'r holl wybodaeth berthnasol.

11 Dylech barchu'r hawliau cyfreithiol canlynol sydd gan gleifion, a'u helpu i fanteisio arnynt:

- **(a)** yr hawl i gael gwybod sut y bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio, a'r
- **(b)** hawl i droi at eu cofnodion iechyd, neu gopïau ohonynt.[3]

Diogelu gwybodaeth

12 Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol am gleifion a gedwir gennych neu yr ydych yn ei rheoli, yn cael ei diogelu mewn ffordd effeithiol bob amser yn erbyn datgeliadau amhriodol. Mae adrannau iechyd y DU yn cyhoeddi arweiniad ynghylch pa mor hir y dylid cadw cofnodion meddygol, a sut y dylid eu gwaredu. Dylech ddilyn yr arweiniad hwn os ydych yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu beidio.[4]

13 Mae nifer o ddatgeliadau amhriodol yn rhai anfwriadol. Ni ddylech rannu gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion lle y bydd modd i rywun ddigwydd clywed, er enghraifft, mewn man cyhoeddus neu mewn fforwm sgwrsio ar y rhyngrwyd. Ni ddylech rannu cyfrineiriau neu adael cofnodion cleifion, naill ai ar bapur neu ar sgrîn, heb neb ar eu cyfyl neu mewn man lle y bydd modd i gleifion eraill, staff gofal iechyd anawdurdodedig neu'r cyhoedd eu gweld.

14 Oni bai eu bod yn cyflawni rôl rheoli perthnasol, ni ddisgwylir i feddygon asesu safonau diogelwch systemau cyfrifiadurol mawr a ddarparir ar eu cyfer yn GIG neu mewn amgylcheddau gofal iechyd eraill a reolir. Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd gyda'r polisïau a'r egwyddorion a gynlluniwyd i ddiogelu preifatrwydd cleifion lle'r ydych yn gweithio, a'u dilyn, a phan fyddwch yn defnyddio systemau cyfrifiadurol a ddarparwyd ar eich cyfer. Mae hyn yn cynnwys polisïau ynghylch defnyddio gliniaduron a dyfeisiau storio cyfrwng cludadwy. Ni ddylech gamddefnyddio'ch breintiau mynediad ac mae'n rhaid i chi gyfyngu ar eich gweithgarwch mynediad i wybodaeth y mae gennych reswm dilys dros droi ati.

15 Os ydych yn gyfrifol am reoli cofnodion cleifion neu wybodaeth arall am gleifion, dylech sicrhau eu bod yn cael eu cadw mewn man diogel a bod unrhyw staff yr ydych yn eu rheoli yn cael eu hyfforddi a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau. Dylech fanteisio ar arbenigedd proffesiynol wrth ddewis a datblygu systemau er mwyn cofnodi, troi at ac anfon data electronig.[5] Dylech sicrhau bod modd troi at wybodaeth weinyddol, megis enwau a chyfeiriadau, ar wahân i wybodaeth glinigol, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd gwybodaeth sensitif yn cael ei dangos yn awtomatig.

16 Os ydych yn pryderu am ddiogelwch gwybodaeth bersonol mewn safle neu mewn systemau a ddarparwyd at eich defnydd, dylech ddilyn y cyngor yn *Arfer Meddygol Da* ynghylch mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, gan gynnwys pryderon ynghylch cyfrinachedd a llywodraethu gwybodaeth.

Datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith

Datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl statud

17 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth er mwyn bodloni gofyniad statudol penodol, megis hysbysu ynghylch achosion hysbys o glefydau heintus penodol neu achosion dan amheuaeth.[6]

18 Mae gan gyrff rheoleiddio amrywiol bwerau statudol i droi at gofnodion cleifion fel rhan o'u dyletswyddau i ymchwilio i gwynion, damweiniau neu addasrwydd gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud gwaith meddygol. Dylech deimlo'n fodlon bod unrhyw ddatgeliad sy'n cael ei chwennych yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd. Mae gan nifer o gyrff rheoleiddio godau ymarfer sy'n rheoli'r ffordd y byddant yn troi at wybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio.

19 Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, dylech hysbysu cleifion am ddatgeliadau o'r fath, oni bai y byddai hynny yn tanseilio'r diben, hyd yn oed os na fydd angen sicrhau eu caniatâd.

20 Efallai y bydd angen i CMC neu reoleiddwyr statudol eraill gael cofnodion cleifion neu wybodaeth bersonol arall er mwyn ymchwilio i addasrwydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i wneud gwaith meddygol. Os gofynnir am wybodaeth, ond os na fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith, neu os byddwch yn cyfeirio pryderon am weithiwr iechyd proffesiynol i gorff rheoleiddio, rhaid i chi geisio caniatâd diamwys y claf cyn datgelu gwybodaeth bersonol os yw hynny'n ymarferol. Os bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd, neu os na fydd yn ymarferol i chi geisio'u caniatâd, dylech gysylltu â'r corff rheoleiddio priodol er mwyn eich helpu i benderfynu a oes modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd neu beidio.[7]

Datgeliadau i lysoedd neu mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyfreitha

21 Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth os bydd barnwr neu swyddog llywyddol llys barn yn gorchymyn i chi wneud hynny. Dylech wrthwynebu i'r barnwr neu i'r swyddog llywyddol os bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i'ch gorfodi i ddatgelu'r hyn y mae'n ymddangos yn wybodaeth amherthnasol i chi, megis gwybodaeth am berthynas claf nad yw'n ymwneud â'r achos.

22 Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth bersonol i drydydd parti megis cyfreithiwr,[8] heddwas neu swyddog llys heb sicrhau caniatâd diamwys y claf, oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu bod modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd.

23 Yn yr Alban, mae'r system rhagholi yn golygu bod modd gwneud trefniadau cyfyngedig i ddatgelu gwybodaeth cyn achos troseddol, i'r Goron ac i'r Amddiffyniad, heb sicrhau caniatâd diamwys y claf. Rhaid cyfyngu'r datgeliad i natur yr anafiadau, cyflwr meddyliol y claf, neu iechyd neu gyflyrau a oedd yn bodoli eisoes, a gofnodwyd gan y meddyg archwilio, a'u hachosion tebygol, yn unig. Os ydynt yn dymuno cael gwybodaeth bellach, bydd modd i'r naill ochr neu'r llall wneud cais i'r llys i gymryd rhagholiad tan lw. Os bydd hynny'n digwydd, rhoddir rhybudd i chi ymlaen llaw, a dylech geisio cyngor cyfreithiol am yr hyn y bydd modd i chi ei ddatgelu a'r hyn na fydd modd i chi ei ddatgelu

Datgelu gwybodaeth ar ôl sicrhau caniatâd

24 Mae ceisio caniatâd claf i ddatgelu gwybodaeth yn dangos parch, ac mae'n rhan o drefniadau cyfathrebu da rhwng meddygon a chleifion.

Amgylchiadau pan fo modd i gleifion roi caniatâd dealledig i ddatgeliad

Rhannu gwybodaeth o fewn y tîm gofal iechyd neu gydag eraill sy'n darparu gofal

25 Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn deall ac yn derbyn bod yn rhaid rhannu gwybodaeth o fewn y tîm gofal iechyd er mwyn darparu gofal ar eu cyfer. Dylech sicrhau bod modd i gleifion droi at wybodaeth sy'n esbonio y bydd gwybodaeth bersonol amdanynt yn cael ei rhannu o fewn y tîm gofal iechyd, gan gynnwys staff gweinyddol a staff eraill[9] sy'n cynorthwyo wrth ddarparu gofal ar eu cyfer, oni bai eu bod yn gwrthwynebu hynny.

26 Mae modd darparu'r wybodaeth hon mewn taflenni, posteri, ar wefannau ac yn ystod sgyrsiau wyneb yn wyneb, a dylid ei theilwra i anghenion cleifion a nodwyd, gymaint ag y bo hynny'n ymarferol. Efallai na fydd posteri yn cynnig fawr ddim o gymorth i gleifion y mae ganddynt nam ar eu golwg neu nad ydynt yn gallu darllen Saesneg, er enghraifft. Wrth adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i gleifion, dylech ystyried a fyddai cleifion yn synnu o gael gwybod sut y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i datgelu.

27 Rhaid i chi barchu dymuniadau unrhyw glaf sy'n gwrthwynebu'r cam o rannu gwybodaeth bersonol benodol o fewn y tîm gofal iechyd neu gydag eraill sy'n darparu gofal, oni bai y byddai modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd. Os bydd claf yn gwrthwynebu datgeliad sy'n hanfodol yn eich barn chi er mwyn darparu gofal diogel, dylech esbonio na fydd modd i chi eu cyfeirio i gael triniaeth neu drefnu triniaeth ar eu cyfer fel arall, heb ddatgelu'r wybodaeth honno hefyd.

28 Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw un y byddwch yn datgelu gwybodaeth bersonol iddynt yn deall eich bod yn ei rhoi iddynt yn gyfrinachol, a bod yn rhaid iddynt barchu hynny. Mae pob aelod o staff sy'n cael gwybodaeth bersonol er mwyn darparu neu gynorthwyo gofal yn rhwym i ddyletswydd gyfreithiol sy'n ymwneud â chyfrinachedd, os oes rhwymedigaethau cytundebol neu broffesiynol arnynt i ddiogelu cyfrinachedd neu beidio.

29 Gallai amgylchiadau godi lle na fydd modd hysbysu claf o'r ffaith bod gwybodaeth yn cael ei datgelu, er enghraifft, mewn argyfwng meddygol. Mewn achos o'r fath, dylech drosglwyddo gwybodaeth berthnasol i'r rhai sy'n darparu'r gofal ar gyfer y claf ar fyrder. Os a phan fydd modd i'r claf ddeall, dylech eu hysbysu sut y datgelwyd eu gwybodaeth bersonol os oedd hyn mewn ffordd na fyddai'n rhesymol iddynt ei disgwyl.

Archwilio clinigol lleol

30 Mae gan bob meddyg sy'n cyflawni gwaith clinigol ddyletswydd i gyfranogi mewn gweithgarwch archwilio clinigol ac i gyfrannu at Ymchwiliadau Cyfrinachol Cenedlaethol.[10] Os bydd archwiliad yn cael ei gynnal gan y tîm a fu'n darparu'r gofal, neu'r rhai sy'n gwneud gwaith i'w cynorthwyo, megis staff archwilio clinigol, byddwch yn gallu datgelu gwybodaeth adnabyddadwy ar yr amod eich bod yn fodlon:

(a) bod modd i'r claf droi at wybodaeth sy'n esbonio y gallai eu gwybodaeth bersonol gael ei datgelu ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol lleol, a bod ganddynt yr hawl i wrthwynebu, ac

(b) nad yw'r claf wedi gwrthwynebu.

31 Os bydd claf yn gwrthwynebu, dylech esbonio pam bod angen y wybodaeth a sut y gallai hyn fod o fudd i'w gofal eu hunain ac i ofal eraill. Os na fydd modd darparu gofal diogel heb ddatgelu gwybodaeth at ddibenion archwilio, dylech esbonio hyn i'r claf, ynghyd â'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

32 Os cynhelir gweithgarwch archwilio clinigol, ond nid gan y tîm a fu'n darparu'r gofal neu'r rhai sy'n eu cynorthwyo, dylid sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig. Os na fydd hyn yn ymarferol, neu os bydd gwybodaeth adnabyddadwy yn hanfodol ar gyfer yr archwiliad, dim ond ar ôl sicrhau caniatâd diamwys y claf y dylech ddatgelu'r wybodaeth. (Gweler yr arweiniad ynghylch *Ymchwil a defnydd arall* ym mharagraffau 40 i 50.)

Datgeliadau y dylid ceisio caniatâd diamwys ar eu cyfer

33 Fel rheol, dylech geisio caniatâd diamwys claf cyn datgelu gwybodaeth adnabyddadwy at ddibenion ac eithrio darparu eu gofal neu weithgarwch archwilio clinigol lleol, megis yswiriant ac archwilio ariannol neu drefniadau hawlio budd-daliadau.[11]

34 Os gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth i drydydd partïon, megis cwmni yswiriant neu gyflogwr claf, neu asiantaeth neu adran o'r llywodraeth sy'n asesu hawl rhywun i gael budd-daliadau, naill ai trwy droi at gofnodion sy'n bodoli eisoes neu'n dilyn archwiliad:

- **(a)** dylech deimlo'n fodlon bod y claf yn meddu ar wybodaeth ddigonol am gwmpas, diben a goblygiadau tebygol y gweithgarwch archwilio a datgelu, a'r ffaith nad oes modd gwrthod darparu neu guddio gwybodaeth berthnasol
- **(b)** dylech sicrhau neu fod wedi gweld caniatâd ysgrifenedig i'r datgeliad gan y claf neu gan unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar ran y claf; gallwch dderbyn sicrhad gan swyddog mewn asiantaeth neu adran o'r llywodraeth neu gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n gweithredu ar eu rhan, bod y claf neu unigolyn sy'n meddu ar awdurdod cywir i weithredu ar eu rhan, wedi rhoi eu caniatâd
- **(c)** dim ond gwybodaeth ffeithiol y mae modd i chi ei chadarnhau y dylech ei datgelu, a'i chyflwyno mewn ffordd ddiduedd ac sy'n berthnasol i'r cais; felly ni ddylech ddatgelu'r cofnod cyfan fel arfer, er y gallai fod yn berthnasol i rai budd-daliadau a delir gan adrannau'r llywodraeth ac i asesiadau eraill o hawl cleifion i gael pensiynau neu fudd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig gydag iechyd, a

(d) dylech gynnig dangos i'ch claf neu roi copi i'ch claf o unrhyw adroddiad y byddwch yn ei ysgrifennu amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant, cyn y bydd yn cael ei anfon, oni bai:

(i) eu bod eisoes wedi nodi nad ydynt yn dymuno'i weld

(ii) y byddai ei ddatgelu yn debygol o achosi niwed difrifol i'r claf neu i unrhyw un arall

(iii) y byddai ei ddatgelu yn debygol o ddatgelu gwybodaeth am unigolyn arall nad ydynt yn rhoi eu caniatâd.[12]

35 Os bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd, neu os na fydd yn ymarferol sicrhau eu caniatâd, bydd modd datgelu gwybodaeth o hyd os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu os bydd modd cyfiawnhau hynny er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 36 i 56). Os yw'r diben yn cael ei gynnwys mewn rheoliad a wnaethpwyd dan adran 25 *Deddf GIG 2006*, bydd modd gwneud datgeliadau hefyd heb sicrhau caniatâd claf, ond nid os bydd y claf wedi gwrthwynebu.[13]

Budd y cyhoedd

Datgeliadau er budd y cyhoedd

36 Mae'n amlwg bod cael gwasanaeth meddygol cyfrinachol o fudd i'r cyhoedd. Mae'r ffaith bod pobl yn cael eu hannog i geisio cyngor a thriniaeth, gan gynnwys cyngor a thriniaeth ar gyfer clefydau trosglwyddadwy, yn cynnig budd i'r gymdeithas gyfan, yn ogystal â'r unigolyn. Mae gofal meddygol cyfrinachol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith fel rhywbeth sy'n cynnig budd i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gallai datgelu gwybodaeth gynnig budd i'r cyhoedd hefyd: er mwyn diogelu unigolion neu gymdeithas rhag risgiau niwed difrifol, megis clefydau trosglwyddadwy difrifol neu droseddau difrifol; neu er mwyn galluogi gwaith ymchwil meddygol, addysg neu ddefnydd eilaidd arall o wybodaeth a fydd yn cynnig budd i gymdeithas gydag amser.

37 Felly, bydd modd datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd, heb sicrhau caniatâd claf, ac mewn achosion arbennig pan fo cleifion wedi gwrthod rhoi eu caniatâd, os bydd y budd i unigolyn neu i gymdeithas o wneud y datgeliad, yn drech na budd y claf a'r budd i'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i chi bwyso'r niwed sy'n debygol o ddigwydd o beidio datgelu gwybodaeth, yn erbyn y niwed posibl i'r claf ac i'r ymddiriedaeth gyffredinol rhwng meddygon a chleifion, a fydd yn codi o ryddhau'r wybodaeth honno.

38 Cyn ystyried a fyddai modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol er budd y cyhoedd, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod gwybodaeth adnabyddadwy yn angenrheidiol ar gyfer y diben, neu nad yw'n ymarferol mewn ffordd resymol i sicrhau ei bod yn ddienw neu'n godedig. Mewn achosion o'r fath, dylech geisio caniatâd y claf o hyd, oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny, er enghraifft, oherwydd:

(a) nad yw'r claf yn alluog i roi eu caniatâd, ac os felly, dylech drafod y mater gydag atwrnai lles y claf, dirprwy a benodwyd gan lys barn, gwarcheidwad neu berthnasau, ffrindiau neu ofalwyr y claf (gweler paragraffau 57 i 63)

(b) mae gennych reswm dros gredu y byddai ceisio caniatâd yn eich rhoi chi neu'n rhoi eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol

(c) y byddai ceisio caniatâd yn debygol o danseilio diben y datgeliad, er enghraifft, trwy amharu ar y gwaith o atal neu ddatrys troseddau difrifol, neu

(d) bod yn rhaid gweithredu yn gyflym, er enghraifft, wrth ganfod neu reoli brigiadau rhai clefydau trosglwyddadwy, ac nad oes digon o amser i gysylltu â'r claf.

39 Dylech hysbysu'r claf y bydd datgeliad yn cael ei wneud er budd y cyhoedd, hyd yn oed os nad ydych wedi ceisio'u caniatâd, oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny, neu y byddai'n eich rhoi chi neu eraill mewn perygl o ddioddef niwed difrifol, neu y byddai'n amharu ar ddiben y datgeliad. Yng nghofnod y claf, rhaid i chi nodi'ch rhesymau dros ddatgelu gwybodaeth heb sicrhau caniatâd yn gyntaf, ynghyd ag unrhyw gamau yr ydych wedi eu cymryd er mwyn ceisio caniatâd y claf, i'w hysbysu am y datgeliad, neu'ch rhesymau dros beidio gwneud hynny.

Ymchwil a defnydd eilaidd arall

40 Mae ymchwil, epidemioleg, goruchwylio iechyd y cyhoedd, cynllunio gwasanaethau iechyd, ac addysg a hyfforddiant ymhlith y defnydd eilaidd pwysig a wneir o wybodaeth am gleifion. Gall pob un o'r rhain gynnig budd pwysig i'r cyhoedd.[14]

41 Ar gyfer sawl defnydd eilaidd, bydd yn ddigonol ac yn ymarferol datgelu gwybodaeth ddienw neu godedig yn unig. Pan fydd angen gwybodaeth adnabyddadwy, neu pan na fydd yn ymarferol cael gwared ar wybodaeth adnabyddadwy, bydd sicrhau caniatâd diamwys cleifion yn aml yn gam hollol ymarferol.

42 Mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy heb sicrhau caniatâd os bydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith, os yw'n cael ei gymeradwyo dan adran 251 *Deddf GIG 2006*,[15] neu os bydd modd ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd ac:

- **(a)** mae'n angenrheidiol defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy, neu
- **(b)** nid yw'n ymarferol trefnu bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig ac nid yw'n ymarferol[16] ceisio caniatâd (neu mae ymdrechion i geisio caniatâd wedi bod yn aflwyddiannus).[17]

43 Wrth ystyried a yw'n ymarferol ceisio caniatâd, rhaid i chi ystyried:

- **(a)** oedran cofnodion a pha mor debygol yw hi y bydd modd olrhain cleifion
- **(b)** nifer y cofnodion, a'r
- **(c)** posibilrwydd o gyflwyno tuedd oherwydd cyfradd ymateb isel neu oherwydd bod grwpiau penodol o gleifion yn gwrthod neu'n methu ymateb i geisiadau i ddefnyddio'u gwybodaeth.

44 Wrth ystyried a yw'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu gwybodaeth at ddefnydd eilaidd yn drech na'r budd i gleifion a'r cyhoedd o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, rhaid i chi ystyried

- **(a)** natur y wybodaeth i'w datgelu
- **(b)** pa ddefnydd fydd yn cael ei wneud o'r wybodaeth

(c) faint o bobl fydd yn gallu troi at y wybodaeth
(d) y trefniadau sy'n bodoli er mwyn sicrhau cyfrinachedd ac er mwyn diogelu'r wybodaeth rhag gweithgarwch datgelu pellach
(e) cyngor Gwarcheidwad Caldicott neu gynghorydd arbenigol tebyg, nad oes cyswllt uniongyrchol rhyngddynt a'r defnydd sy'n cael ei ystyried ar gyfer y datgeliad, a'r
(f) posibilrwydd y bydd cleifion yn dioddef niwed neu ofid.

45 Wrth ystyried ceisiadau am gymorth dan adran 251 *Deddf GIG 2006* yng Nghymru a Lloegr, mae'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yn ystyried:

(a) dichonoldeb cyflawni'r gwaith ymchwil neu'r gweithgarwch arall ar ôl sicrhau caniatâd cleifion neu trwy ddefnyddio gwybodaeth ddienw neu godedig, ac
(b) a fyddai defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy yn cynnig budd i gleifion neu'r cyhoedd mewn ffordd ddigonol er mwyn bod yn drech na hawl cleifion i breifatrwydd.[18]

46 Gall y Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd yng Ngogledd Iwerddon gynnig cyngor ynghylch rhai o'r un ystyriaethau; ond nid oes ganddo bwerau statudol, felly ni all roi awdurdod cyfreithlon i ddatgeliadau gwybodaeth adnabyddadwy heb sicrhau caniatâd. Os bydd rhywun yn cwyno neu'n herio gweithgarwch, gallai ei gyngor ynghylch arfer gorau gyflawni rôl pwysig mewn unrhyw asesiad ynghylch priodoldeb datgeliad.

47 Mae'r Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd yn yr Alban yn cyflawni rôl gwahanol, ac yno, dylai meddygon geisio cyngor Gwarcheidwaid Caldicott, sefydliadau amddiffyn neu gyrff proffesiynol os nad ydynt yn siŵr ynghylch a oes modd cyfiawnhau datgeliadau gwybodaeth adnabyddadwy at ddefnydd eilaidd er budd y cyhoedd.

48 Efallai na fydd yn ymarferol i'r tîm gofal iechyd, neu'r rhai sy'n eu cynorthwyo fel arfer, i drefnu bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu i geisio caniatâd diamwys cleifion:

(a) er mwyn datgelu gwybodaeth adnabyddadwy at ddefnydd eilaidd pwysig, neu
(b) er mwyn recriwtio cleifion addas ar gyfer treialon clinigol neu brosiectau ymchwil cymeradwyedig eraill.

49 Os dyna'r sefyllfa:

(a) gellir anfon gwybodaeth adnabyddadwy i 'hafan ddiogel', lle y byddant yn bodoli ac yn meddu ar y gallu, ac fel arall yn fannau addas er mwyn prosesu'r wybodaeth (gan gynnwys sicrhau ei bod yn ddienw neu'n godedig) a rheoli'r cam o ddatgelu gwybodaeth at ddefnydd eilaidd neu, os na fydd hynny'n ymarferol[19]
(b) mae modd dirprwyo'r[20] dasg o sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu o geisio caniatâd cleifion i ddatgeliad, i rywun sy'n cael eu cynnwys yn y tîm gofal iechyd am gyfnod dros dro ac y maent yn rhwym i rwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol ynghylch cyfrinachedd.

50 Dim ond os bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi cymeradwyo gwaith ymchwil y dylech ddatgelu gwybodaeth adnabyddadwy ar gyfer y gwaith ymchwil hwnnw. Wrth wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer prosiectau ymchwil, dylech hysbysu Pwyllgorau Moeseg Ymchwil o ddatgeliadau gwybodaeth adnabyddadwy na sicrhawyd caniatâd ar eu cyfer.[21]

Datgeliadau er mwyn diogelu'r claf

51 Efallai y bydd yn briodol annog cleifion i roi eu caniatâd ar gyfer datgeliadau sy'n angenrheidiol yn eich barn chi er mwyn eu diogelu, a'u rhybuddio o'r peryglon o wrthod rhoi eu caniatâd; ond fel arfer, dylech ufuddhau i benderfyniad claf cymwys sy'n oedolyn i wrthod rhoi eu caniatâd i ddatgeliad, hyd yn oed os bydd eu penderfyniad yn golygu eu bod nhw, ond neb arall, mewn perygl o ddioddef newid difrifol.[22] Dylech wneud eich gorau i roi'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i gleifion er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau er eu budd eu hunain, er enghraifft, trwy drefnu cyswllt gydag asiantaethau sy'n cynorthwyo dioddefwyr trais domestig.

52 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgeliadau heb sicrhau caniatâd ar eu cyfer os na fydd yn ymarferol sicrhau caniatâd y claf. Gweler paragraff 38 am enghreifftiau, a pharagraff 63 am arweiniad ynghylch datgeliadau er mwyn diogelu claf nad ydynt yn alluog i roi eu caniatâd.

Datgeliadau er mwyn diogelu eraill

53 Efallai y bydd modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth bersonol ynghylch claf er budd y cyhoedd, heb sicrhau eu caniatâd, os y gallai methiant i'w datgelu olygu bod eraill yn agored i risg marwolaeth neu o ddioddef niwed difrifol. Dylech geisio caniatâd y claf i ddatgeliad o hyd os yw hynny'n ymarferol, gan ystyried unrhyw resymau a roddwyd dros wrthod rhoi caniatâd.

54 Gallai sefyllfa o'r fath godi, er enghraifft, pan fyddai datgeliad yn debygol o gynorthwyo wrth atal, datrys neu erlyn trosedd ddifrifol,[23] yn enwedig troseddau yn erbyn yr unigolyn. Pan fydd dioddefwyr trais yn gwrthod cymorth yr heddlu, efallai y bydd modd cyfiawnhau datgeliad o hyd os bydd eraill yn parhau i fod mewn perygl, er enghraifft, gan rywun sy'n barod i ddefnyddio arfau, neu gan drais domestig pan allai plant neu eraill fod mewn perygl.

55 Os bydd gwrthodiad claf i roi caniatâd ar gyfer datgeliad yn golygu bod eraill yn agored i risg mor ddifrifol fel ei fod yn drech na budd y claf a budd y cyhoedd o gynnal cyfrinachedd, neu os na fydd yn ymarferol neu'n ddiogel ceisio caniatâd y claf, dylech ddatgelu'r wybodaeth ar fyrder i awdurdod neu unigolyn priodol. Dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel i chi wneud hynny, hyd yn oed os ydych yn bwriadu ei datgelu heb sicrhau eu caniatâd.

56 Dylech gymryd rhan mewn gweithdrefnau a luniwyd er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag troseddwyr rhyw a throseddwyr treisgar. Dylech ufuddhau i geisiadau am wybodaeth berthnasol ynghylch cleifion a allai beri risg niwed difrifol i eraill.[24]

Datgeliadau am gleifion nad ydynt yn gallu rhoi eu caniatâd

57 Mae'n harweiniad *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd* a chodau ymarfer *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005* yn cynnig cyngor ynghylch asesu galluedd meddyliol claf. Ni cheir deddfwriaeth benodol ynghylch galluedd meddyliol ar gyfer Gogledd Iwerddon.

58 Am gyngor mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, trowch at ein harweiniad *0-18 oed: arweiniad i bob meddyg*.

59 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid datgelu gwybodaeth neu beidio am glaf nad ydynt yn meddu ar alluedd, rhaid i chi:

- **(a)** roi'r pwys pennaf ar ofal y claf
- **(b)** parchu urddas a phreifatrwydd y claf, a
- **(c)** chynorthwyo ac annog y claf i gymryd rhan, gymaint ag y gallant ac y maent yn dymuno, mewn penderfyniadau ynghylch datgelu eu gwybodaeth bersonol.

60 Yn ogystal, rhaid i chi ystyried:

- **(a)** a yw diffyg galluedd y claf yn sefyllfa barhaol neu'n sefyllfa dros dro ac, os yw'n sefyllfa dros dro, a fyddai'n rhesymol aros nes y byddant yn adennill eu galluedd cyn gwneud y penderfyniad
- **(b)** unrhyw dystiolaeth am ddewisiadau'r claf a fynegwyd yn flaenorol
- **(c)** safbwyntiau unrhyw un y mae'r claf yn gofyn i chi ymgynghori gyda nhw, neu y mae ganddynt awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniad ar eu rhan, neu a benodwyd i'w cynrychioli

(d) safbwyntiau pobl sy'n agos i'r claf ynghylch dewisiadau, teimladau, credoau a gwerthoedd y claf, ac a ydynt o'r farn bod y datgeliad arfaethedig er budd y claf, a'r

(e) hyn yr ydych chi a gweddill y tîm gofal iechyd yn ei wybod am ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd y claf.

61 Os bydd claf nad yw'n meddu ar alluedd yn gofyn i chi beidio datgelu gwybodaeth bersonol am eu cyflwr neu eu triniaeth, dylech geisio'u perswadio i ganiatáu i unigolyn priodol ymwneud gyda'r gweithgarwch ymgynghori.[25] Os byddant yn gwrthod, ac os ydych yn argyhoeddedig ei fod yn hanfodol er eu lles, gallwch ddatgelu gwybodaeth berthnasol i unigolyn neu awdurdod priodol. Mewn achos o'r fath, dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth a, phan fo hynny'n briodol, dylech geisio safbwyntiau eiriolwr neu ofalwr a'u hystyried yn ofalus. Yng nghofnod y claf, dylech gofnodi'ch trafodaethau a'r rhesymau dros benderfynu datgelu'r wybodaeth.

62 Efallai y bydd angen i chi rannu gwybodaeth bersonol gyda pherthnasau, ffrindiau neu ofalwyr claf er mwyn eich galluogi i asesu budd pennaf claf. Ond nid yw hynny'n golygu bod ganddynt hawl cyffredinol i droi at gofnodion y claf neu i gael gwybodaeth amherthnasol ynghylch gofal iechyd y claf yn y gorffennol, er enghraifft. Yn ogystal, dylech rannu gwybodaeth bersonol berthnasol gydag unrhyw un y maent yn meddu ar yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran claf nad yw'n meddu ar alluedd meddyliol, neu y maent wedi cael eu penodi i gynorthwyo a chynrychioli claf o'r fath.[26]

Datgeliadau pan allai claf fod yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin

63 Os ydych yn credu y gallai claf fod yn dioddef esgeulustod neu'n cael eu cam-drin yn gorfforol, yn rhywiol neu'n emosiynol, ac nad ydynt yn meddu ar y galluedd i roi eu caniatâd i ddatgeliad, rhaid i chi roi gwybodaeth i awdurdod neu unigolyn cyfrifol priodol ar fyrder, os ydych o'r farn bod y datgeliad er budd pennaf y claf neu'n angenrheidiol er mwyn diogelu eraill rhag risg dioddef niwed difrifol. Os ydych o'r farn am unrhyw reswm, nad yw datgelu gwybodaeth er budd pennaf claf sy'n cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin, dylech drafod y materion gyda chydweithiwr profiadol. Os byddwch yn penderfynu peidio datgelu gwybodaeth, dylech gofnodi'ch trafodaethau a'r rhesymau dros benderfynu peidio datgelu, yng nghofnod y claf. Dylech fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniad.

Rhannu gwybodaeth gyda phartner, gofalwyr, perthnasau neu ffrindiau claf

64 Dylech gytuno gyda'r claf pa wybodaeth y maent yn dymuno i chi ei rhannu, gyda phwy ac ym mha amgylchiadau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd galluedd y claf yn gyfnewidiol neu'n lleihau, neu os byddant yn debygol o golli galluedd, hyd yn oed os bydd hynny am gyfnod dros dro. Gall trafodaethau cynnar o'r natur hwn helpu i osgoi datgeliadau y byddai cleifion yn gwrthwynebu iddynt. Yn ogystal, gallant helpu i osgoi camddealltwriaeth gydag unrhyw un y byddai'r claf yn dymuno rhannu gwybodaeth gyda nhw, neu dramgwyddo unigolion o'r fath.

65 Os na fydd claf yn meddu ar alluedd, dylech rannu gwybodaeth berthnasol yn unol â'r cyngor ym mharagraffau 57 i 63. Oni bai eu bod yn mynegi fel arall, mae'n rhesymol tybio y byddai cleifion yn dymuno i'r rhai sydd agosaf iddynt gael eu hysbysu o'u cyflwr cyffredinol a'u prognosis.

66 Os bydd unrhyw un sy'n agos i'r claf yn dymuno trafod eu pryderon ynghylch iechyd y claf, dylech egluro iddynt, er nad yw gwrando ar eu pryderon yn cyfateb â thorri amodau cyfrinachedd, na allwch warantu na fyddwch yn dweud wrth y claf am y sgwrs. Efallai y bydd angen i chi rannu gwybodaeth yr ydych wedi'i chael gan eraill gyda chlaf, er enghraifft, os yw wedi dylanwadu ar eich asesiad o'r claf a'r driniaeth ar eu cyfer.[27] Ni ddylech wrthod gwrando ar bartner neu ofalwyr claf, neu eraill, ar sail cyfrinachedd. Gallai eu safbwyntiau nhw neu'r wybodaeth y byddant yn ei darparu, fod o gymorth wrth i chi ddarparu gofal ar gyfer y claf. Fodd bynnag, bydd angen i chi ystyried a fyddai'ch claf o'r farn bod gwrando ar bryderon eraill ynghylch iechyd neu ofal eich claf, yn cyfateb gydag achos o dorri ymddiriedaeth, yn enwedig os ydynt wedi gofyn i chi beidio gwrando ar rai pobl penodol.[28]

Gwybodaeth enetig a gwybodaeth arall a rennir

67 Gallai gwybodaeth enetig a rhywfaint o wybodaeth arall am eich claf fod yn wybodaeth ynghylch eraill y mae'r claf yn rhannu cysylltiadau genetig neu gysylltiadau eraill gyda nhw. Yn arbennig, gallai diagnosio salwch y mae'r claf yn dioddef ohono, er enghraifft, gyfleu sicrwydd neu debygolrwydd y bydd perthynas gwaed yn dioddef yr un salwch.

68 Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn fodlon rhannu gwybodaeth am eu hiechyd eu hunain gyda'u plant a pherthnasau eraill, yn enwedig os byddant yn cael cyngor y gallai helpu'r perthnasau hynny:

(a) i gael proffylacsis neu ymyriadau neu driniaethau ataliol eraill
(b) i wneud mwy o ddefnydd o weithgarwch goruchwylio neu ymchwiliadau eraill, neu
(c) i baratoi ar gyfer problemau iechyd posibl.[29]

69 Fodd bynnag, efallai y bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd i ddatgelu gwybodaeth a fyddai er budd eraill, er enghraifft, pan fo perthnasoedd teuluol wedi chwalu, neu os yw eu plant naturiol wedi cael eu mabwysiadu. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai bod modd datgelu o hyd er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 36 i 56). Os bydd claf yn gwrthod rhoi eu caniatâd i ddatgeliad, bydd angen i chi sicrhau cydbwysedd rhwng eich dyletswydd i roi'r pwys pennaf ar ofal eich claf a'ch dyletswydd i helpu diogelu'r unigolyn arall rhag dioddef niwed difrifol. Os yw hynny'n ymarferol, ni ddylech ddatgelu manylion personol y claf wrth gysylltu gydag eraill a'u cynghori ynghylch y risgiau y maent yn eu hwynebu.

Datgelu ar ôl marwolaeth claf

70 Bydd eich dyletswydd cyfrinachedd yn parhau yn dilyn marwolaeth claf.[30] Bydd yr hawl i ddatgelu gwybodaeth bersonol, a pha wybodaeth bersonol i'w datgelu, yn dilyn marwolaeth claf, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Os oedd y claf wedi gofyn i'r wybodaeth gael ei chadw yn gyfrinachol, dylech barchu eu dymuniadau fel arfer. Os nad ydych yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau a wnaethpwyd gan y claf, pan fyddwch yn ystyried ceisiadau am wybodaeth, dylech gofio'r ystyriaethau canlynol:

- **(a)** a yw datgelu'r wybodaeth yn debygol o beri gofid i bartner neu deulu'r claf, neu fod o fudd iddynt[31]
- **(b)** a fydd y datgeliad yn datgelu gwybodaeth am deulu'r claf neu unrhyw un arall
- **(c)** a yw'r cyhoedd eisoes yn ymwybodol o'r wybodaeth neu a oes modd sicrhau ei bod yn ddienw neu'n gododig, a
- **(d)** diben y datgeliad.

71 Ceir amgylchiadau pan ddylech ddatgelu gwybodaeth berthnasol am glaf a fu farw, er enghraifft

- **(a)** er mwyn helpu crwner, procuradur ffisgal neu swyddog tebyg arall mewn cwêst neu ymchwiliad i ddamwain angheuol[32]
- **(b)** pan fydd datgeliad yn ofynnol dan y gyfraith, yn cael ei awdurdodi dan adran 251 *Deddf GIG 2006*, neu'n cael ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd, megis ar gyfer addysg neu ymchwil
- **(c)** ar gyfer Ymchwiliadau Cyfrinachol Cenedlaethol neu ar gyfer gweithgarwch archwilio clinigol lleol
- **(d)** ar dystysgrifau marwolaeth, y mae'n rhaid i chi eu llenwi mewn ffordd onest ac yn llawn

(e) at ddibenion goruchwylio iechyd y cyhoedd, ac felly dylai'r wybodaeth fod yn ddienw neu'n gododig, oni bai y byddai hynny'n mynd yn groes i'r bwriad

(f) pan fydd rhiant yn gofyn am wybodaeth am amgylchiadau ac achosion marwolaeth plentyn

(g) pan fydd partner, perthynas agos neu ffrind yn gofyn am wybodaeth am amgylchiadau marwolaeth oedolyn, ac nid oes gennych unrhyw reswm dros gredu y byddai'r claf wedi gwrthwynebu datgeliad o'r fath, a

(h) phan fo gan unigolyn yr hawl i droi at gofnodion dan *Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990* neu *Access to Health Records (Northern Ireland) Order 1993*.[33]

72 Mae cofnodion mewn archif sy'n ymwneud â chleifion a fu farw yn parhau i fod yn destun dyletswydd cyfrinachedd, er y bydd y potensial ar gyfer datgelu gwybodaeth ynghylch perthnasau sy'n goroesi, neu o beri gofid i berthnasau o'r fath, neu o niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd, yn lleihau gydag amser.[34]

Geirfa

Mae'r eirfa hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon. Nid oes gan y diffiniadau hyn unrhyw arwyddocâd cyfreithiol neu arwyddocâd ehangach.

Gwybodaeth

Gwybodaeth bersonol Gwybodaeth am bobl y bydd meddygon yn ei dysgu wrth gyflawni gwaith proffesiynol, ac y mae modd adnabod unigolion o'i gweld.

Gwybodaeth ddienw Gwybodaeth na fydd yn rhesymol disgwyl bod modd adnabod unigolion o'i gweld. Mae modd defnyddio enwau, cyfeiriadau, codau post llawn neu rifau adnabod, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd neu gydag unrhyw wybodaeth arall sydd gan y derbynnydd neu sydd ar gael i'r derbynnydd, er mwyn adnabod cleifion.

Gwybodaeth godedig Gelwir hon yn wybodaeth ffugenwol hefyd. Gwybodaeth na fydd modd i'r derbynnydd adnabod unigolion o'i gweld, ond sy'n galluogi gwybodaeth ynghylch cleifion gwahanol i gael ei gwahaniaethu neu i gysylltu gwybodaeth am yr un cleifion gydag amser (er enghraifft, er mwyn nodi sgil-effeithiau cyffuriau). Efallai y bydd yr unigolyn neu'r gwasanaeth a wnaeth godio'r wybodaeth yn cadw 'allwedd' er mwyn gallu ei hailgysylltu gyda'r claf. (Gweler *Gwybodaeth ddienw* uchod.)

Gwybodaeth adnabyddadwy Gwybodaeth y bydd modd adnabod claf o'i gweld. Bydd eu henw, eu cyfeiriad a'u cod post llawn yn nodi claf; bydd cyfuniadau gwybodaeth yn gallu gwneud hynny hefyd, hyd yn oed os na fydd eu henw a'u cyfeiriad yn cael ei gynnwys. Gallai gwybodaeth sy'n cynnwys rhifau bach a chyflyrau prin arwain at adnabod unigolyn hefyd. Dylid cymharu hyn gyda *Gwybodaeth Ddienw* a *Gwybodaeth Godedig*.

Caniatâd

Caniatâd yn Cytuno i weithred ar sail gwybodaeth o'r hyn y mae'r weithred ei golygu a'i chanlyniadau tebygol.

Caniatâd diamwys Caniatâd sy'n cael ei fynegi ar lafar neu'n ysgrifenedig. Fe'i gelwir yn ganiatâd penodol hefyd.

Caniatâd dealledig Caniatâd y bydd modd ei dybio os hysbyswyd claf y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu, diben a graddau'r datgeliad, a bod ganddynt yr hawl i wrthwynebu, ond nad ydynt wedi gwrthwynebu.

Termau eraill

Archwilio clinigol Gwerthuso perfformiad clinigol yn erbyn safonau neu trwy gyfrwng dadansoddiad cymharol, er mwyn cyfrannu at y broses o reoli gwasanaethau.

Datgeliad	Darparu neu drosglwyddo gwybodaeth am glaf i unrhyw un ac eithrio'r claf, beth bynnag fo'r diben. Mae rhannu gwybodaeth o fewn timau gofal iechyd yn fath o ddatgeliad, yn yr un modd â darparu gwybodaeth bersonol am glaf i'r heddlu.
Tîm gofal iechyd	Mae'r tîm gofal iechyd yn cynnwys y bobl sy'n darparu gwasanaethau clinigol ar gyfer claf, a'r staff gweinyddol a'r staff eraill sy'n cynorthwyo'r broses o ddarparu eu gofal. Gweler paragraff 25 ac Ôl-nodyn 9 am ragor o enghreifftiau o'r rhai a allai fod yn rhan o'r tîm gofal iechyd.
Budd y cyhoedd	Budd y gymuned gyfan, neu grŵp o fewn y gymuned neu unigolion. Mae paragraffau 36 a 37 yn cynnig esboniad am yr ymarfer cydbwyso sy'n ofynnol er mwyn penderfynu a fyddai modd cyfiawnhau datgeliad er budd y cyhoedd.

Atodiad cyfreithiol

1 Mae gan gyrff amrywiol sy'n rheoleiddio gweithwyr proffesiynol a darparwyr gofal iechyd bwerau statudol sy'n mynnu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu, gan gynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion. Mae'r canlynol yn cynrychioli detholiad o'r cyrff hyn yn unig, crynodeb o'u pwerau mwyaf perthnasol, ac mae'n cyfeirio at godau a gyhoeddir ganddynt ynghylch sut y byddant yn defnyddio'u pwerau.

2 Ceir nifer fawr o Ddeddfau eraill sy'n cynnig rhyw fath o ffordd o droi at wybodaeth, a allai gynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion, at ddibenion mor amrywiol ag atal terfysgaeth ac ymchwilio i ddamweiniau ar y ffyrdd neu'r rheilffyrdd.

3 Os nad ydych yn siŵr ynghylch y sail gyfreithiol dros wneud cais am wybodaeth, dylech ofyn am eglurhad gan yr unigolyn sy'n gwneud y cais ac, yn ôl yr angen, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rheoleiddio gweithwyr proffesiynol a darparwyr gofal iechyd

4 Mae gan y **Comisiwn Ansawdd Gofal** bwerau i archwilio, troi at ac i fynnu dogfennau a gwybodaeth dan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008*. Mae adrannau 76 i 79 yn llywodraethu defnydd a datgeliad gwybodaeth bersonol gyfrinachol gan y Comisiwn. Mae Adran 80 yn mynnu ei fod yn ymgynghori ynghylch ac yn cyhoeddi cod ymarfer am y ffordd y mae'n sicrhau, yn trin, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth bersonol gyfrinachol.

5 Mae gan **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** bwerau dan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003* i droi at wybodaeth bersonol cleifion.

6 Mae gan **Gomisiwn Gofal yr Alban** bwerau tebyg mewn perthynas â darparwyr gofal iechyd annibynnol cofrestredig dan adran 25 *Regulation of Care (Scotland) Act 2001*.

7 Mae gan yr **Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd** bwerau dan adrannau 41 a 42 *Health and Personal Social Services (Quality, Improvement and Regulation) (Northern Ireland) Order 2003* i droi at sefydliadau ac asiantaethau a chyrff Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd i mewn i eiddo darparwyr gan archwilio a chymryd copïau o gofnodion, ar yr amod bod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei diogelu yn unol â'r ddarpariaeth yn adran 43.

8 Mae gan **Wasanaeth Atal Twyll yn y GIG** bwerau dan *Ddeddf GIG 2006 a Deddf GIG (Cymru) 2006* i fynnu bod dogfennau'n cael eu cyflwyno er mwyn atal, datrys ac erlyn mewn achosion o dwyll yn GIG. Mae'r Adran Iechyd (Lloegr) a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi codau ymarfer ynghylch defnyddio'r pwerau hyn.

9 Mae adran 35A *Deddf Feddygol 1983* yn rhoi'r grym i **CMC** fynnu bod gwybodaeth a dogfennaeth yn cael ei datgelu sy'n berthnasol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau addasrwydd i wneud gwaith meddygol, ar yr amod nad yw deddfwriaeth arall yn gwahardd gweithgarwch datgelu o'r fath.

10 Mae gan yr **Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, Ombwdsmon Gogledd Iwerddon, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** ac **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban** bwerau statudol sy'n debyg i'r Uchel Lys neu Lys y Sesiwn er mwyn mynnu bod dogfennau'n cael eu cyflwyno a bod tystion yn mynychu ac yn cael eu holi at ddibenion ymchwiliadau am y cyrff iechyd sy'n ymddangos o fewn eu cylch gwaith.

Gorchmynion llys

11 Mae gan lysoedd sifil a throseddol bwerau i fynnu datgeliadau gwybodaeth mewn amgylchiadau amrywiol. Dylid esbonio'r sail dros orchymyn datgeliad i chi; a dylid hysbysu'r claf y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei cheisio, o'r gorchymyn, oni bai bod hynny'n anymarferol neu y byddai'n tanseilio'r diben dros geisio'r datgeliad.

Ôl-nodion

1 Mae Gwarcheidwaid Caldicott yn unigolion uwch yn GIG, gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol a sefydliadau partner, sy'n gyfrifol am ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth am gleifion ac am alluogi trefniadau i rannu gwybodaeth briodol.

2 Bydd meddygon sy'n gweithio mewn amgylchedd a reolir yn cyflawni hyn yn bennaf trwy ddeall a dilyn polisïau corfforaethol sy'n ymwneud â chyfrinachedd a llywodraethu gwybodaeth.

3 Mae *Deddf Diogelu Data 1998* yn darparu ar gyfer eithriadau mewn rhai amgylchiadau, gan ganiatáu trefniadau i godi taliadau. Mae modd i chi gael gwybod mwy am hyn trwy droi at arweiniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac adrannau iechyd y DU.

4 Mae *Cod Ymarfer GIG: Rheoli Cofnodion* (Adran Iechyd, 2006), *Records Management: NHS Code of Practice* (Scotland) (Llywodraeth yr Alban, 2008), *Cylchlythyr Iechyd Cymru (2000) 71: For The Record* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) a *Rheolaeth Dda, Cofnodion Da* (Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd, 2005) oll yn cynnwys amserlenni o ran y cyfnodau cadw byrraf ar gyfer gwahanol fathau o gofnodion. Yn ogystal, dylech ystyried unrhyw ofyniad cyfreithiol mewn arweiniad sy'n ymwneud â meysydd arbenigol penodol, sy'n effeithio ar y cyfnod y dylech gadw cofnodion. Ni ddylech gadw cofnodion am gyfnodau hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol.

5 Dylech ddilyn arweiniad technegol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae Safon Rheoli Diogelwch ISO 27001 a'r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Diogelwch Gwybodaeth yn ISO 27002 yn cynnig arweiniad manylach, yn yr un modd ag arweiniad technegol yr Adran Iechyd ar gyfer sefydliadau GIG. Mae NHS Connecting for Health yn cyhoeddi Pecyn Cymorth ar Lywodraethu Gwybodaeth ar gyfer sefydliadau GIG. Ei nod yw dwyn ynghyd, o fewn un fframwaith, yr holl ofynion, safonau ac arfer gorau ynghylch trin gwybodaeth bersonol, gan alluogi sefydliadau i weithredu arweiniad yr Adran Iechyd ac i gydymffurfio â'r gyfraith.

6 Mae gwahanol glefydau yn hysbysadwy mewn gwahanol wledydd yn y DU ac mae'r trefniadau adrodd yn gwahaniaethu. Mae modd i chi gael cyngor gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd yng Nghymru a Lloegr, y Ganolfan ar gyfer Goruchwylio Clefydau Trosglwyddadwy yng Ngogledd Iwerddon a Health Protection Scotland.

7 Gweler yr atodiad cyfreithiol (tudalen 33) am ragor o wybodaeth am bwerau statudol cyrff sy'n rheoleiddio darpariaeth gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, i fynnu bod gwybodaeth yn cael ei datgelu, ac ynghylch dyletswyddau cyfreithiol eraill i ddatgelu.

8 Cewch ddatgelu gwybodaeth i'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun er mwyn cael cyngor ganddynt.

9 Eraill a allai fod yn aelodau o'r tîm gofal iechyd, ond na fyddai cleifion yn disgwyl y byddai gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda nhw, gan gynnwys cynghorwyr presgripsiynu sy'n adolygu anghenion meddyginiaeth cleifion er mwyn gwella diogelwch, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth i feddygon bresgripsiynu.

10 Gweler *Arfer Meddygol Da* (CMC, 2006), paragraffau 14 a 41.

11 Gweler yr arweiniad atodol ynghylch *Datgelu cofnodion at ddibenion ariannol a gweinyddol* a *Datgelu gwybodaeth at ddibenion yswiriant, cyflogaeth a dibenion tebyg*. Mae modd datgelu gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn ymateb i faterion a godwyd ar ran claf gan Aelod Seneddol heb geisio caniatâd diamwys y claf; dylech fynd dros hyn gyda'r claf o hyd os ydych yn credu na fyddai'n rhesymol iddynt ddisgwyl y byddai'r wybodaeth yn cael ei datgelu. Gweler nodyn arweiniad technegol y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch *Gorchymyn Diogelu Data (Prosesu Data Personol Sensitif) (Cynrychiolwyr a Ddewiswyd) 2002*.

12 Os bydd unrhyw rai o'r eithriadau yn berthnasol, dylech ddatgelu cymaint o'r adroddiad ag y gallwch o hyd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi cyngor ynghylch adroddiadau at ddibenion budd-daliadau. Trowch at **www.dwp.gov.uk/healthcare-professional/guidance**

13 Mae Adran 251 *Deddf GIG 2006* yn ailddeddfu adran 60 *Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001*. Mae cymeradwyaeth dan adran 251 *Deddf GIG 2006* yn caniatáu datgelu er gwaethaf y gofyniad dan gyfraith gwlad i sicrhau caniatâd, ond fel arfer, ni fyddai'n awdurdodi datgeliad yr oedd y claf wedi gwrthwynebu iddo; efallai y bydd modd cyfiawnhau datgeliad o hyd er budd y cyhoedd. Yn ogystal, trowch at yr arweiniad ym mharagraffau 46 a 47 ynghylch rolau pwyllgorau cynghori ar gyfrinachedd yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon.

14 Gweler yr arweiniad atodol ynghylch *Datgelu cofnodion at ddibenion ariannol a gweinyddol*, megis adolygiadau QOF, a *Datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant*. Mae'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn cyhoeddi pecyn cymorth o gyngor ymarferol ynghylch y gofynion cyfreithiol a'r arfer da o ran defnyddio gwybodaeth bersonol mewn gwaith ymchwil. Trowch at **www.dt-toolkit.ac.uk/home.cfm**

15 Mae adran 251 *Deddf GIG 2006* yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig, lle y dylai meddygon geisio cyngor annibynnol Pwyllgor Moeseg a Chyfrinachedd y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth, gan ufuddhau i'r cyngor hwn.

16 Dylech ystyried a yw'r gwaith y mae angen ei wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu er mwyn ceisio caniatâd cleifion, yn rhesymol ar lefel ymarferol yn yr holl sefyllfaoedd. Dim ond os bydd angen gwneud ymdrech afresymol y dylech symud ymlaen i ystyried a oes modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth adnabyddadwy er budd y cyhoedd.

17 Os na fydd yn ymarferol sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu geisio neu sicrhau caniatâd cleifion heb wneud ymdrech afresymol, ac mae'r tebygolrwydd y bydd cleifion yn wynebu niwed neu ofid yn fach iawn, gallai datgelu at ddiben eilaidd pwysig fod yn gymesur. Dylech barchu gwrthwynebiadau cleifion i ddatgeliad.

18 Nid yw datgeliadau sy'n cael eu cynnwys yng ngofynion rheoliad, yn torri dyletswydd gyfrinachedd cyfraith gwlad.

19 Mae Canolfan Wybodaeth GIG yn gweithio i sefydlu'r strwythurau a'r arweiniad (ac mae'n ceisio cymeradwyaeth dan adran 251 *Deddf GIG 2006*) ar gyfer hafanau diogel yn Lloegr. Mae'r Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth yn rheoli gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion ar gyfer sawl defnydd eilaidd yn yr Alban.

20 Mae dirprwyo yn golygu gofyn i gydweithiwr sicrhau bod y wybodaeth yn ddienw neu'n godedig, neu geisio caniatâd cleifion. Er na fyddwch yn atebol am gamau gweithredu y rhai y byddwch yn dirprwyo cyfrifoldebau iddynt, byddwch yn parhau i fod yn atebol am eich penderfyniad i'w dirprwyo. Rhaid i chi deimlo'n fodlon bod yr unigolyn yr ydych yn dirprwyo iddynt wedi cael eu hyfforddi a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau ac yn deall canlyniadau torri amodau cyfrinachedd. Gweler paragraffau 12 i 16 am ddiogelu gwybodaeth a rheoli cofnodion.

21 Efallai y byddwch yn dymuno ceisio cyngor Pwyllgorau Moeseg Ymchwil ynghylch moeseg datgelu a defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy at ddibenion ymchwil. Fodd bynnag, ni allant awdurdodi datgeliadau nas rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer neu bennu a oes modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd.

22 Mae *Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007* yn mynnu bod byrddau iechyd yn yr Alban yn adrodd i awdurdodau lleol os ydynt yn gwybod neu os ydynt o'r farn bod oedolyn mewn perygl o ddioddef niwed (ond nid yn analluog o anghenraid) a bod angen cymryd camau i'w diogelu. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn mynnu bod deiliaid swyddi a chyrff cyhoeddus penodol yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol sy'n gwneud ymholiadau ynghylch oedolion y maent mewn perygl, ac mae'n cynnwys pwerau i archwilio cofnodion iechyd at ddibenion cysylltiedig.

23 Ni cheir diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer 'trosedd ddifrifol'. Mae *Cyfrinachedd: Cod Ymarfer GIG* (Adran Iechyd, 2003) yn cynnig rhai enghreifftiau o droseddau difrifol (gan gynnwys llofruddiaeth, dynladdiad, trais a cham-drin plant; gwneir cyfeiriad at niwed difrifol i ddiogelwch y wladwriaeth a threfn gyhoeddus a 'throseddau sy'n cynnwys elw neu golled ariannol sylweddol' yn yr un categori). Yn ogystal, mae'n cynnig enghreifftiau o droseddau nad ydynt yn rhai digon difrifol fel arfer er mwyn mynnu datgeliad heb ganiatâd (gan gynnwys dwyn, twyll a difrod i eiddo lle y mae'r golled neu'r difrod yn llai sylweddol).

24 Dylech ystyried yr asesiad o'r risg a achosir gan gleifion a wneir gan weithwyr proffesiynol eraill a chan grwpiau a sefydlwyd at y diben hwnnw, ond mae'n rhaid i chi wneud eich asesiad a'ch penderfyniad eich hun ynghylch a oes modd cyfiawnhau datgeliad. Mae'ch asesiad chi o'r risg yn destun barn broffesiynol lle y bydd ymddygiad troseddwr yn y gorffennol yn ffactor. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn cyhoeddi arweiniad ar gyfer seiciatryddion ynghylch rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys cymryd rhan mewn paneli a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA).

25 Mewn rhai achosion, bydd datgeliad yn ofynnol neu'n angenrheidiol, er enghraifft, dan ddarpariaethau deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol.

26 Gallai hwn fod yn atwrnai lles, yn warcheidwad neu'n ddirprwy a benodir gan lys neu'n Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Gweler *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000* a *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* a'u codau ymarfer priodol. Ni cheir deddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â galluedd meddyliol ar gyfer Gogledd Iwerddon, lle y mae'r ddyletswydd yn ôl cyfraith gwlad i weithredu er budd pennaf cleifion analluog yn parhau. Dylai Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol gael y wybodaeth a restrir yn adran 130B *Deddf Iechyd Meddwl 1983* hefyd.

27 Mae adran 7 *Deddf Diogelu Data 1998* yn rhoi'r hawl i gleifion droi at eu gwybodaeth bersonol; ond ceir rhai eithriadau. Er enghraifft, nid oes yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth i glaf am unigolyn arall neu sy'n datgelu manylion personol unigolyn fel ffynhonnell y wybodaeth, oni bai bod yr unigolyn arall yn rhoi eu caniatâd neu y mae'n rhesymol dan yr amgylchiadau i ddarparu'r wybodaeth heb sicrhau eu caniatâd. Trowch at nodyn arweiniad technegol y Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch *Delio gyda cheisiadau mynediad pwnc sy'n cynnwys gwybodaeth unigolion eraill*.

28 Mae Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr yn cyhoeddi gwybodaeth ynghylch arfer da ar gyfer gofal sylfaenol, iechyd meddwl a gweithwyr proffesiynol mewn ysbytai, gan amlygu'r angen i ofalwyr gael gwybodaeth er mwyn cyflawni eu rolau.

29 Am ragor o wybodaeth, trowch at *Consent and confidentiality in genetic practice: Guidance on genetic testing and sharing of genetic information – A report of the Joint Committee on Medical Genetics* (Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, 2006).

30 Ceir rhwymedigaeth foesegol amlwg. Fe allai fod rhwymedigaeth gyfreithiol hefyd: gweler *Lewis v Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd* [2008] EWHC 2196. Mae adran 38 *Freedom of Information (Scotland)* Act 2002 yn cynnwys cofnodion meddygol unigolyn a fu farw o fewn diffiniad gwybodaeth bersonol, y mae wedi'i heithrio o'r hawl cyffredinol i gael gwybodaeth.

31 Nid oes angen sicrhau caniatâd perthynas sy'n fyw neu berthynas agosaf ar gyfer datgelu gwybodaeth gyfrinachol, ac nid yw eu caniatâd yn gallu awdurdodi datgelu gwybodaeth gyfrinachol, er y gallai safbwyntiau'r rhai a oedd yn agos i'r claf eich helpu i benderfynu a yw datgelu yn gam priodol.

32 Gweler paragraff 69 *Arfer Meddygol Da* (CMC, 2006).

33 Sef, cynrychiolydd personol claf a fu farw ac unrhyw unigolyn a allai wneud hawliad yn dilyn marwolaeth claf. Nid yw hon yn hawl gyffredinol, a dylid cyfyngu ar y trefniadau datgelu i'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r hawliad. Dylid cyfyngu ar y trefniadau datgelu, neu wrthod datgeliad, os ceir tystiolaeth y byddai'r claf wedi disgwyl na fyddai'r wybodaeth yn cael ei datgelu i'r sawl sy'n gwneud cais amdani, os byddai datgelu yn debygol o achosi niwed difrifol i unrhyw un arall, neu os byddai'n datgelu gwybodaeth am drydydd parti hefyd (ac eithrio gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gofal ar gyfer yr unigolyn a fu farw) nad ydynt yn rhoi eu caniatâd. Rhaid gwrthod cais i droi at gofnodion sy'n cynnwys nodyn, a wnaethpwyd ar gais y claf, nad oeddent yn dymuno i'r hawl gael ei roi i droi at y cofnodion yn dilyn cais dan *Ddeddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990*.

34 Dylech gysylltu gyda lle adneuo cymeradwyedig eich sefydliad neu'r Archifau Cenedlaethol, Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon neu Archifau Cenedlaethol yr Alban am gyngor pellach ynghylch storio a throi at archifau cofnodion gwaith ymchwil parhaus neu o werth hanesyddol. Mae cofnodion iechyd cleifion a fu farw wedi'u heithrio o *Freedom of Information (Scotland) Act 2002*.

Mynegai

Sylwer: Mae'r rhifau yn cyfeirio at rifau paragraffau.

A

Access to Health Records (Northern Ireland) Order 1993 71h
adrannau'r llywodraeth, caniatâd er mwyn datgelu iddynt 34
Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007 ôl-nodyn 22
Adults with Incapacity (Scotland) Act, 2000 57, ôl-nodyn 26
addasrwydd i wneud gwaith meddygol 18, 20
addysg a hyfforddiant 4f, 36, 40
aelodau teuluol, rhannu gwybodaeth gyda 62, 64–66
anafiadau saethu, eu hadrodd 4c
anafiadau trywanu, eu hadrodd 4c
archifau 72
archwilio
  archwilio ariannol 33
  archwilio clinigol 7, 30–32
arfau, datgelu er budd y cyhoedd 54
Arfer Meddygol Da 2, 16, ôl-nodyn 10
argyfwng 29
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru atodiad cyfreithiol 5
Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd atodiad cyfreithiol 7

B

barnwyr 21
budd y cyhoedd
  datgelu er 36–56
  datgelu i gorff rheoleiddio 20
  defnydd eilaidd gwybodaeth am glaf 40–50
  hysbysu claf o ddatgeliad 39
  mewn achosion sy'n cynnwys troseddau difrifol 54
  perygl marwolaeth neu niwed difrifol 53
Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth 45

C

cadw cofnod iechyd 12
cam-drin, datgelu 63
caniatâd
  ceisio 38, 43
  datgelu gyda 24–35
  datgelu heb 36–56
  diamwys 33–35
Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd 57
clefydau hysbysadwy ôl-nodyn 6
clefydau trosglwyddadwy 4d, 36
cleifion
  darparu gwybodaeth i 26, 34

gwybodaeth am rannu gwybodaeth 25, 26
hawliau cyfreithiol 11
mynediad at wybodaeth 9b(i)
codedig, gweler gwybodaeth ddienw neu godedig
Cod Ymarfer GIG: Rheoli Cofnodion ôl-nodyn 4
cofbinnau, gweler dyfeisiau storio cyfrwng cludadwy
cofnodion cleifion,
dogfennu datgelu er budd y cyhoedd 39
dogfennu trafodaethau ynghylch esgeulustod a cham-drin 63
gwaredu 12
hyd y cyfnod ar gyfer eu cadw 12
rheoli 15
wedi'u harchifo 72
cofnodion iechyd, gweler cofnodion cleifion
cofnodion iechyd electronig, gweler systemau cyfrifiadurol
Comisiwn Ansawdd Gofal atodiad cyfreithiol 4
Comisiwn Gofal yr Alban atodiad cyfreithiol 6
crwner 71a
cydweithwyr, ceisio cyngor ganddynt 3, 63
cyfeirio, os bydd claf yn gwrthwynebu datgeliad 27
cyflogaeth
datgelu am resymau 4e, 34
cyfraith gwlad ynghylch cyfrinachedd 9e
cyfreithwyr 22
Cyfrinachedd: Cod Ymarfer GIG ôl-nodyn 23
cyfrineiriau 13
cyfryngau, ymateb i feirniadaeth yn y wasg 4g
Cylchlythyr Iechyd Cymru (2000) 71: For the Record ôl-nodyn 4
cyllid
datgelu ar gyfer 4b, ôl-nodion 11, 14
cymhwystra, gweler galluedd
Cyngor Meddygol Cyffredinol atodiad cyfreithiol 9
cynllunio gwasanaethau, datgelu ar gyfer 7
cynllunio gwasanaethau iechyd 40
cyrff rheoleiddio y mae ganddynt bwerau statudol 18, 20, atodiad cyfreithiol 4–10
cwêst 71a

D

datgelu
- am gleifion nad ydynt yn gallu rhoi eu caniatâd 57–63
- ar ôl marwolaeth 70–72
- at ddibenion ymchwil 40–50
- dan drefniadau rhagholi 23
- er budd y cyhoedd 8c, 36–56
- er mwyn diogelu eraill 53-56
- er mwyn diogelu'r claf 51, 52, 63
- gwybodaeth enetig 67–69
- gyda chaniatâd 8b, 24–35
- hysbysu'r claf o hyn 19
- i aelodau teuluol 64–66
- i lysoedd neu yn ystod gweithgarwch ymgyfreitha 21–23 ac atodiad cyfreithiol 11
- sicrhau cyn lleied ag y bo modd ohono 9D
- sy'n ofynnol dan y gyfraith 8a, 17–23 ac atodiad cyfreithiol

Deddf Diogelu Data 1998 ôl-nodyn 3

Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ôl-nodyn 26

Deddf GIG 2006 atodiad cyfreithiol 8

Deddf GIG 2006 adran 251 35, 42, 45, 71b, ôl-nodion 13, 15, 19

Deddf GIG (Cymru) 2006 atodiad cyfreithiol 8

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 atodiad cyfreithiol 4

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 atodiad cyfreithiol 5

Deddf Meddygol 1983 atodiad cyfreithiol 9

Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 71h

deddfwriaeth atodiad cyfreithiol 1–11
- bod yn ymwybodol o'r diweddaraf 9e
- datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl 17–23

deddfwriaeth diogelu data 9e

dioddefwyr
- datgelu er mwyn diogelu cleifion y maent mewn perygl o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin 63
- trais domestig 51, 54

diogelu gwybodaeth 12–16

dirprwyo ôl-nodyn 20

DVLA, adrodd pryderon iddo 4a

dyfeisiau storio cyfrwng cludadwy 14

E

epidemioleg 40

esgeulustod, datgelu 63

FF

ffrindiau, gweler aelodau'r teulu

G

galluedd ôl-nodion 25, 26
datgelu pan na fydd claf yn gallu rhoi eu caniatâd 38a, 57–63
gliniaduron 14
gofalwyr, rhannu gwybodaeth gyda nhw 62, 64–66
Gogledd Iwerddon, Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd 46
goruchwylio iechyd y cyhoedd 40, 71e
Gwarcheidwaid Caldicott 3, 44e, 47, ôl-nodyn 1
gwaredu cofnodion iechyd 12
Gwasanaeth Atal Twyll yn y GIG atodiad cyfreithiol 8
gwybodaeth bersonol
datgelu ar gyfer archwilio clinigol 7, 30–32
datgelu ar gyfer gofal 7, 25–29
datgelu ar ôl sicrhau caniatâd 8b, 24–35
datgelu er budd y cyhoedd 8c, 36–56
datgelu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith 8a, 17–23
diogelu 12–16
gwybodaeth ddienw neu gododig 9a, 38, 41, 45a, 48, ôl-nodion 16, 17
dirprwyo proses 49b
gwybodaeth enetig 67–69

H

hafanau diogel 49a
hawlio budd-daliadau 33, 34c
Health and Personal Social Services (Quality, Improvements and Regulation) (Northern Ireland) Order 2003 atodiad cyfreithiol 7
hyfforddiant (ac addysg) 4f, 40, ôl-nodyn 14

LL

llysoedd 21–23, atodiad cyfreithiol 11

M

marwolaeth, datgelu ar ôl 70–72
mynegi pryderon 16

N

niwed difrifol 51–56, 63

O

ombwdsmyn atodiad cyfreithiol 10

P

partneriaid, gweler aelodau teuluol
pensiynau 34c
perthnasau, gweler aelodau teuluol
plant
  galluedd a datgelu 58
  gwybodaeth i rieni ar farwolaeth plentyn 71f
pobl ifanc, galluedd a datgelu 58
preifatrwydd 2, 59b
procuradur ffisgal 71a
Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd
  Gogledd Iwerddon 46
  Yr Alban 47

R

Regulation of Care (Scotland) Act 2001 atodiad cyfreithiol 6
risg
  barnu ôl-nodyn 24
  i eraill 53–56
  i glaf 51, 52, 63

RH

rhagholi 23
Rheolaeth Dda, Cofnodion Da ôl-nodyn 4
rheoli cofnodion ôl-nodyn 4
Rheoli Cofnodion: Cod Ymarfer GIG (yr Alban) ôl-nodyn 4
rhyngrwyd 13

S

Safon Rheoli Diogelu ISO 27001 ôl-nodyn 5
safonau diogelwch systemau cyfrifiadurol 14–16
staff, dyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol 28
systemau cyfrifiadurol 13, 14

T

terfysgaeth atodiad cyfreithiol 2
tîm gofal iechyd
  rhannu gwybodaeth gyda 7, 25–29
trais
  domestig 51, 54
  os bydd y dioddefwr yn gwrthod help gan yr heddlu 54
troseddau
  adrodd anafiadau saethu a thrywanu 4c
  datgelu er budd y cyhoedd yn eu

cylch 54
diffiniad ôl-nodyn 23
os byddai ceisio caniatâd yn tanseilio diben datgeliad 38c
troseddwyr rhyw 56
troseddwyr treisgar 56
troseddwyr rhyw 56
troseddwyr treisgar 56
trydydd partïon
caniatâd diamwys i ddatgelu i 34
datgelu i 22
er mwyn diogelu 53–56
tystysgrifau marwolaeth 71d

Y

ymchwil 36, 40–50
ymchwiliad i ddamwain angheuol 71a
Ymchwiliadau Cyfrinachol Cenedlaethol 30, 71c
ymddiriedaeth 6, 66
ymgyfreitha 21–23
Yr Alban,
Pwyllgor Cynghori ar Breifatrwydd 47
rhagholi 23
yr heddlu 22
yswirwyr, datgelu i 4e, 33, 34, ôl-nodyn 11
y wasg, ymateb i feirniadaeth ynddi 4g

Llundain
Regent's Place, 350 Euston Road, London NW1 3JN

Manceinion
St James's Buildings, 79 Oxford Street, Manchester M1 6FQ

Yr Alban
5th Floor, The Tun, 4 Jackson's Entry, Holyrood Road, Edinburgh EH8 8PJ

Cymru
Tŷ Regus, Falcon Drive, Bae Caerdydd CF10 4RU

Gogledd Iwerddon
9th Floor, Bedford House, 16-22 Bedford Street, Belfast BT2 7FD

Ffôn:0161 923 6602
E-bost: gmc@gmc-uk.org
Gwefan: www.gmc-uk.org
Rhif ffôn y tu allan i'r DU: +44(0)161 923 6602

Mae CMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750)

© 2009 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, storio mewn system adalw, neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf, neu mewn unrhyw ffordd, electronig, mecanyddol, llun-gopïo, recordio neu fel arall heb sicrhau caniatâd perchennog yr hawlfraint ymlaen llaw.

Cyhoeddwyd yn gyntaf: 2009

ISBN: 978-0-901458-40-7

Mae modd cael cofnod catalog o'r llyfr hwn gan y Llyfrgell Brydeinig

Code: GMC/CONW/0909